

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

[cyngorvbala@outlook.com](mailto:cyngorvbala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

6/7/2017

**Presennol:** Y Maer Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Dilys Evans, Rhys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Edith Roberts, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Sharon Evans, Alun Price

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Clerc y Maer ar ei gordeinhad yn ddiweddar i wasanaethu'r Eglwys yng Nghymru.

1. Wrth agor y cyfarfod, darllenodd y Maer lythyr o ddiolch gan y cyn-Gynghorydd Dilwyn Jones am y cyfarchion a'r cyflwyniadau yng nghyfarfod ei anrhegu ar ei ymddeoliad ar ôl 50 mlynedd o wasanaeth i Gyngor Tref Y Bala. Diolchodd y Maer i bawb a oedd wedi dod i gyfarfod y cynrychiolwyr o Orllewin Tanganyika. Dywedodd ei bod wedi mynychu rownd derfynol Cwpan y Bragdy ac wedi cael mwynhad mawr o agor gweithgareddau Clwb Ieuencid Y Bala. Diolchodd i'r Cynghorwyr Sharon Evans a Carol Rowlands am gynrychioli'r Cyngor yn Bêc Off yr Ysgol Feithrin. Dywedodd y byddai'n cynrychioli'r Cyngor mewn nifer o weithgareddau dros yr haf.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1/6/17.
5. **Materion y Clerc:** Derbyniwyd cyngor Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd ar greu is-ddeddf a chytunwyd i gysylltu gyda'r aelod perthnasol o'r Heddlu.
6. **Cyngor Gwynedd:** Yn ei Adroddiad dywedodd y Cynghorydd Gwynedd, Dilwyn Morgan, fod sefyllfa'r toiledau'n datblygu'n foddhaol. Mae biniau'r Stryd Fawr yn mynd i gael eu hadnewyddu. O ran yr Ysgol 3-18 oed, adroddodd fod y Cabinet yn argymhell tynnu'r statws eglwysig; erbyn hyn mae pob ochr i'r ddadl yn cyd-weithio'n dda. Mae camau'n cael eu cymryd gan Gyngor Gwynedd i stopio ysmegu a gollwng sbwriel yng nghae chwarae'r Grîn. Rhoddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan esboniad o'i rôl fel aelod Cabinet dros Adran Plant a Chefnogaeth Teuluoedd a'r nifer cyfrifoldebau a dyletswyddau yng nghlwm wrth y rôl hon. Wrth ymateb i sylw gan Gyngorydd dywedodd ei fod yn ymwybodol fod pryder am ddiogelwch yn parhau yng nghartrefi'r henoed yng Nghysgod y Coleg; mae'n parhau i bwysu ar Gartrefi Cymunedol Gwynedd i estyn oriau gwaith y Warden.

---

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)

7. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Eluned Jones o gyfarfod a fynychodd gyda Sharon Evans o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Roedd y prif ffocws ar droseddau cefn gwlad.
8. **Lloches bws:** Adroddodd y Clerc ar ymateb Parc Cenedlaethol Eryri ar fater cynllunio ar gyfer gosod lloches bws a chytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i holi Cyngor Gwynedd am y camau nesaf ar osod lloches wrth yr arhosfan tu allan i'r Eglwys Gatholig.
9. **Materion Cynllunio:** Ystyried ceisiadau:
  - i. **NP5/53/T154G** Newid defnydd llawr isaf Banc Nat West i fwyty; trosi'r gweddill yn 4 fflat, ac aeiladu un pâr o dai dau-pâr yng nghefn y safle

Cytunwyd i fynegi pryderon y Cynghorwyr, yn cynnwys

1. A oes galw am 6 annedd newydd yng nghanol Y Bala? Mae anhawster gosod tai a fflatiau eisoes ac mae CCG yn anfon yn rheolaidd i ddweud fod ganddynt eiddo gwag.
  2. Mae pryderon mawr am ofod parcio ar gyfer y 4 fflat
  3. Mae pryder hefyd am ofod parcio ar gyfer staff a mynychwyr y bwyty
  4. Mae llefydd parcio ar y Stryd Fawr yn gyfyngedig ac yn hanfodol ar gyfer trigolion a ffyniant busnesau eraill.
  5. Pryder sylweddol iawn yw Heol y Domen – mae Banc y Nat West yn cefnu arni. Mae cymeriad arbennig iawn i'r stryd hanesyddol hon ac ni ddylid ar unrhyw gyfrif amharu ar hyn. Mae Heol y Domen yn rhan hynod o bwysig o Ardal Treftadaeth y dref.
  6. Mae Heol y Domen eisoes yn gul a byddai mwy o drafnidiaeth (yn cynnwys *deliveries* i'r bwyty) a mwy o barcio yn ei gwneud yn anodd iawn i'r trigolion presennol ac i ddefnyddwyr eraill.
  7. A ydyw'r 2 dŷ yn "dai fforddiadwy"? A fydd Amod 106 (neu amod cyfatebol) arnynt? Ai tai gwyliau yw'r ddau dŷ a'r 4 fflat?
- ii. **NP5/53//170G** Uwchraddio gorsaf telegyfathreu presennol (wrth A&G Evans) - CYMERADWYO
  - iii. **NP5/53/CA371B** Caniatâd Ardal Cadwraeth i ddymchwel warws segur, Garej Plase, Heol Aran LL23 7SP – CYMERADWYO, gan dynnu sylw at yr asbestos sydd yn yr adeilad.
  - iv. **NP5/53/L296** Adeiladu estyniad cefn deulawr, Fron Derfel, 11 Stryd Fawr, Y Bala - CYMERADWYO

**10.Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol. Derbyniwyd rhybudd y bydd angen Archwilydd Mewnol a chymeradwywyd i'r Clerc fynychu cyfarfod yng Nghaernarfon i dderbyn mwy o wybodaeth ar y mater. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.

**11.Gohebiaeth:**

- i. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd y Rhaglen Hyfforddiant a chytunwyd i roi sylw i'r mater ym mis Medi.

- ii. **Arall:** Ystyriwyd yr ohebiaeth am gyflwr y gofeb ar ben Arenig Fawr. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i gysylltu gyda'r Llang Prydeinig ac i wneud ei orau i sicrhau fod y gofeb yn cael ei thrwsio.

Rhannwyd gwybodaeth Cartrefi Cymunedol Gwynedd am eiddo gwag.

Nodwyd i'r Clerc dderbyn ac ateb gohebiaeth am y drol ar lawnt Ysgol Tŷ Tan Domen.

12. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr a dywedwyd fod Sioned Evans wedi cymryd at y rôl o Gydlynedd.
13. **Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd portffolio o luniau o asedau'r Cyngor wedi ei baratoi gan Eluned Jones a Carol Rowlands, a diolchwyd i'r ddwy am eu gwaith cywrain. Adroddwyd fod yr asedau mewn cyflwr da a bod y Domen yn edrych yn ardderchog. Diolchwyd eto i'r cymdogion am gloi'r Domen bob nos tua 6.00pm. Mae angen peth gwaith ar arwyddion y Stryd Fawr ac ar y lloches bws tu allan i'r Bull, a gwirfoddolodd rhai o'r Cynghorwyr i wneud y gwaith eu hunain.
14. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref :**
- Holwyd a fyddai'n bosib trosglwyddo rhai o asedau ac adnoddau na fydd eu hangen ar ôl i'r ysgol newydd agor i Danganyika. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach ac i'r Clerc ohebu gyda Llywodraethwyr yr ysgolion cynradd.
  - Mae'r ymdrechion i gofrestru Llwybr y Sgotwyr yn parhau.

*Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7/9/17*